**Eich llwybr mewn bywyd**

Yng ngherdd Robert Frost "The Road Not Taken," mae'r ffyrdd a grybwyllir yn drosiad sy'n cynrychioli'r gwahanol lwybrau yr ydym ni i gyd yn teithio arnyn nhw mewn bywyd. Yn fwy penodol, mae'r llwybrau'n symbolau o'r penderfyniadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud mewn bywyd. Wrth fyfyrio, gallant fod yn symbolau o sut y gwnaethom ni ymdopi â'r penderfyniadau hynny lle rydym ni weithiau, yn anffodus, yn gofyn i ni'n hunain, 'beth oedd ar fy mhen i? ".

Fel pobl o ffydd, allwn ni ddadansoddi a oedd gweddi yn rhan o'r penderfyniad? Neu a wnaed y penderfyniad yn seiliedig ar emosiynau neu amgylchiadau'r foment yn unig. Y gwahaniaeth mawr rhwng y ddwy ffordd yw y gallai un llwybr fod yn laswelltog a llai o deithio arno, tra bod mwy o deithio ar y llall gan bobl oedd yn mynd heibio a chan eraill sy'n cerdded llwybr gyda mi, ochr yn ochr â mi, ac yn rhannu fy mhrofiadau. Symbolaeth y ddwy ffordd yw bod y llwybr arall, yr un na chaiff ei droedio, yn cynrychioli'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel llwybr hawdd. Yn aml, dyma'r llwybr y bydd y mwyafrif o bobl yn ei ddilyn mewn bywyd wrth wneud penderfyniadau heriol.

I bobl o ffydd, nid yw sefyll dros y gwir yn llwybr hawdd. Nid yw gwneud y peth iawn ym mhob sefyllfa chwaith yn ffordd hawdd. Gall dewis y llwybr cywir yn eich gwaith, bywyd personol, astudiaethau yn y brifysgol, a swyddogaethau cefnogol yn eich cymuned arwain at lawer o bobl yn eich gwylio o bell. Y llall, fodd bynnag, yr un a ddewisodd yr adroddwr, oedd y ffordd anoddaf. Ar ddiwedd y gerdd, mae'r adroddwr yn nodi, pe cai gyfle, na fyddai wedi gwneud yr un penderfyniad eto, sy'n ein gadael yn dyfalu. Mae hefyd yn cyfaddef bod y dewis hwn wedi gwneud byd o wahaniaeth yn ei fywyd, er gwell neu er gwaeth.

Mae'n werth nodi hefyd mai'r teitl yw “The Road Not Taken” pan fo'r gerdd yn amlwg am y ffordd y *gwnaeth* ei cherdded. Nid yw hyn ond yn cyfeirio at y ffaith ein bod wastad yn edrych yn ôl ar y penderfyniadau hanfodol a wnawn ni mewn bywyd trwy feddwl am y dewisiadau na wnaethom ni. Yn y diwedd, fodd bynnag, mae'r siaradwr yn dewis y llwybr sydd yr un mor deg yr olwg â'r llall ond sy'n laswelltog ac eisiau ôl traul arno. Dyma'r ffordd sy'n rhoi teitl y gerdd iddi ac mae'r bardd yn teimlo bod troedio'r ffordd hon wedi gwneud byd o wahaniaeth. Yr hyn y mae'n ei olygu wrth hyn yw, er yr edrychai'r ddau ddewis yn rhai posib, ac y gallai fod wedi dewis y naill neu'r llall, mae'n falch ei fod, o'r ddau ddewis, wedi dewis yr un llai poblogaidd. Mae wedi newid taith y siaradwr drwy iddo fynd i gyfeiriad y dewisodd llai o bobl fynd iddo.

Yn yr amseroedd hynod anodd hyn, a gaf i eich annog i geisio ffydd, yr ysgrythur a chyngor doeth wrth ichi ddewis y ffyrdd yn eich bywyd? Wrth ichi wynebu'r penderfyniadau anodd hyn, cofiwch, nid ydych chi ar eich pen eich hun. Tîm Caplaniaeth Prifysgol Bangor - Yma i chi. Cymerwch eiliad i edrych ar y wefan i gael gwybodaeth gyswllt.

Bendithion i chi. Tanya Herring, Caplan Eglwys Cynulliadau Duw, Bangor